LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 08**
**Teitl:** Perfformiad yn erbyn ein cynllun blynyddol Chwarter 1

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required -** | Nodyn er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | I'w nodi a'i drafod yn ôl yr angen. |
| **Risg / Risk** | Bydd unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'n hanallu i gyflawni, adrodd ar, a chyfathrebu'n effeithiol, ein heffaith yn cael niwed sylweddol i enw da yn ogystal â methu â chyflawni ein rhwymedigaethau o fewn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) a'n Dogfen Fframwaith gyda'n tîm Partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru.<br><br>Caiff y risgiau hyn eu monitro drwy'r fframweithiau adrodd perfformiad a risg a'u huwchgyfeirio drwy'r ffynonellau sicrwydd priodol.<br><br>Ar hyn o bryd mae 8 menter/prosiect sydd â risgiau coch i'w cyflawni yn y flwyddyn ariannol hon, a 23 sydd mewn ambr / ar ei hôl hi. Mae rhagor o fanylion am y rhain wedi'u cynnwys yn y papur. |
| **Cyllid / Finance** | O fewn y gyllideb |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Pob amcan o fewn Cynllun Blynyddol 2025-2026 |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Caiff unrhyw bolisi, newidiadau proses, prosiect neu ddigwyddiadau mawr eu hasesu am eu heffaith ar wahanol gymunedau gan ddefnyddio ein Hasesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru. |

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Ben Eaton |
| **Trafodaethau / Penderfyniadau Blaenorol/Previous Discussions/Decisions** | Eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd uwch arweinyddiaeth a'r Bwrdd. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Rebecca Lythgoe / Ben Eaton |
| **Dyddiad / Date** | 28 Gorffennaf 2025 |

## Cefndir / Background

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Bwrdd o berfformiad y sefydliad hyd yma yn y flwyddyn, gan gynnwys data perfformiad manwl a chanlyniadau o chwarter cyntaf 2025 (Ch1). Mae'n cyflwyno dadansoddiad mwy manwl o weithgareddau, cyflawniadau mesuradwy, ac effaith ein gwaith ar unigolion a chymunedau.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cyfres o ddangosfyrddau a fydd yn crynhoi ac yn cynrychioli gwybodaeth allweddol yn weledol. Enghreifftiau wedi'u hatodi er gwybodaeth.

## Manylion / Detail

### Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol o fewn y Cynllun Blynyddol.

| | Statws |
|---|---|
| 0. Ein gwaith bob dydd | |
| 1. Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol | |
| 2. Gwthio am wasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl | |
| 3. Gweithio gyda'n gilydd yn well | |
| 4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw | |
| 5. **Tyfu a gwella fel sefydliad.** | |

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Mae pedwar allan o bum blaenoriaeth yn parhau i fod yn wyrdd ar y cyfan, gyda Blaenoriaeth 5 wedi'i graddio'n ambr yn y chwarter cyntaf oherwydd bod sawl menter wedi cychwyn yn hwyrach na'r disgwyl.**

Mae hwn wedi bod yn gyfnod o gyflawni ystyrlon ac effaith weladwy, gyda llawer o'n gallu wedi'i ganolbwyntio ar waith sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth ledled Cymru. Fodd bynnag, mae galwadau annisgwyl, swyddi gwag staff, a newidiadau mewn rolau allweddol wedi golygu bod angen hyblygrwydd ac ymatebolrwydd. O ganlyniad, mae rhai prosiectau datblygu tymor hwy wedi symud ymlaen yn arafach nag a fwriadwyd. Er gwaethaf hyn, mae sylfeini cryf bellach yn eu lle i gyflymu cynnydd yn y chwarter nesaf.

Yn ystod chwarter un, ein ffocws, yn briodol, fu ar gyflawni blaenoriaethau statudol craidd. Ym maes datblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol, mae penodi Pennaeth Datblygu Sefydliadol newydd yn gam ymlaen i'w groesawu, er y bydd angen amser ar ddeiliad y swydd i ymsefydlu. Yn y cyfamser, mae'r tîm gweithlu wedi dargyfeirio capasiti sylweddol i reoli nifer fawr o faterion cysylltiadau gweithwyr. Mae hyn wedi gohirio dechrau prosiectau allweddol, gan gynnwys adolygu ein prosesau recriwtio, datblygu strategaeth lleoliadau, ac asesiad o anghenion dysgu sefydliadol i lywio ein strategaeth dysgu a datblygu. Mae cynnydd ar fonitro EDI hefyd wedi bod yn arafach nag a gynlluniwyd ond disgwylir iddo symud ymlaen yn chwarter dau.

Disgwylir i benodiad diweddar Bennaeth Mewnwelediadau ac Ymgysylltu newydd ac Arweinydd Ymgysylltu Cymru Gyfan roi hwb i'n gallu i gyflawni prosiectau cenedlaethol, cryfhau ein sylfaen dystiolaeth, a chefnogi cynrychioliadau a datganiadau safbwynt mwy amserol. Bydd y rolau hyn hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a chydlynu gweithgaredd lleol a rhanbarthol.

Mae rhai prosiectau cyflawni rhanbarthol o dan Flaenoriaeth 0 ('ein gwaith bob dydd') wedi'u hail-drefnu ar gyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn oherwydd absenoldebau dros dro mewn rolau allweddol ar draws ardaloedd fel Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, Gorllewin Cymru, a Phowys. Mae'r prosiectau hyn yn parhau i fod yn bwysig a disgwylir iddynt gael eu cyflawni ar amser.

Yn y maes digidol, mae cynnydd ar y Strategaeth Ddigidol, achrediadau seiber uwch, a gweithredu argymhellion archwilio mewnol wedi'i ohirio oherwydd capasiti cyfyngedig a blaenoriaethau mewnol sy'n newid. Fodd bynnag, mae cynllun cyflawni diwygiedig bellach ar waith i adennill momentwm yn chwarter dau.

Mae'r Tîm Gweithredol wedi adolygu'r holl brosiectau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd fel rhai 'mewn perygl' neu ar ei hôl hi, gan ymgysylltu'n uniongyrchol ag arweinwyr i fynd i'r afael â phroblemau a chytuno ar gamau adfer. Ar y cam hwn, ni ddisgwylir i unrhyw un o'r prosiectau sydd wedi'u gohirio parhau i fod yn anghyflawn erbyn mis Ebrill 2026.

## Prif Gyflawniadau’r Flwyddyn Hyd yn Hyn: C1

Mae dros 4,078 o bobl wedi ymgysylltu â ni rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025.




Rydym wedi:

- cymryd rhan mewn 186 o weithgareddau ymgysylltu
- cynnal 12 ymweliad ymgysylltu ar y safle
- gwneud 141 o gynrychioliadau
- ymateb i 8 ymgynghoriad neu alwad am dystiolaeth

- bod yn rhan – ar gyfartaledd – o 28 o newidiadau gwasanaeth bob mis
- ar gyfartaledd, gweithio gyda thua 70 o bartneriaid y mis
- cefnogi pobl i fwrw ymlaen â dros 1060 o bryderon drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

## Trosolwg o chwarter 1 2025

| Rhanbarth : | Gweithgareddau ymgysylltu | Ymweliadau | Cynrychiolia dau | Ymgynghoriad agored | Achosion eiriolaeth agored gyfartalog | Nifer y bobl y gwnaethom ymgysylltu â nhw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | 16 | 5 | 24 | 0 | 119 | 374 |
| Cwm Taf Morgannwg | 22 | 2 | 6 | 0 | 74 | 408 |
| Gwent | 14 | 1 | 21 | 0 | 233 | 630 |
| Powys | 15 | 3 | 20 | 4 | 109 | 231 |
| CNPT ac Abertawe | 14 | 1 | 12 | 0 | 180 | 106 |
| Gogledd Cymru | 58 | 1 | 28 | 0 | 260 | 597 |
| Gorllewin Cymru. | 42 | 0 | 18 | 1 | 116 | 542 |
| Cenedlaethol | 5 | DDIM YN BERTHNASOL | 12 | 3 | DDIM YN BERTHNASOL | 1190 |
| **CYFANSYMIAU** | 186 | 12 | 141 | 8 | 1060 | 4078 |

Dyma themâu'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn ystod y cyfnod hwn:

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

## Angen gwella

| Thema | Materion Allweddol a Mewnwelediadau |
|---|---|
| **Gwasanaethau Meddyg Teulu** | Mynediad at wasanaethau meddyg teulu gydag arosiadau hir am apwyntiadau ac anawsterau wrth sicrhau apwyntiadau, yn enwedig i'r rhai heb fynediad digidol. |
| | Effeithiodd anawsterau trafnidiaeth ar fynediad at ofal, yn enwedig mewn ardaloedd â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig. |
| | Roedd dibyniaeth ar systemau bwcio ar-lein heb ddewis arall yn atal rhai rhag cael mynediad at ofal. |
| **Gwasanaethau Iechyd Meddwl** | Amseroedd aros hir a mynediad at wasanaethau cwnsela. |
| | Cefnogaeth annigonol ar gyfer diagnosis deuol (iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau) |
| **Mamolaeth** | Roedd gwasanaethau mamolaeth yn faes pryder sylweddol gyda phrofiadau o gael eu diswyddo yn ystod esgor yn cael eu hadrodd. |
| | Cymorth ôl-ofal cyfyngedig a chyfathrebu gwael ynghylch gweithdrefnau neu'r camau nesaf. |
| **Gwasanaethau Rhyw** | Diffyg mynediad ac amseroedd aros hir am driniaeth. |
| **Fferyllfa** | Lleihau oriau agor a chyfleu'r newidiadau hyn i bobl. |
| | Oedi a/neu brinder meddyginiaeth sy'n arwain at ymweliadau lluosog â fferyllfeydd a chyfnewidiadau. |
| **Amseroedd Aros** | Mae amseroedd aros hir yn thema sy'n codi dro ar ôl tro ar draws nifer o wasanaethau gan gynnwys iechyd meddwl ac atgyfeiriadau arbenigol. Roedd amseroedd aros yn aml yn croestorri â materion eraill yn ymwneud â staffio a mynediad, gan effeithio'n anghymesur ar y rhai ag anghenion cymhleth neu'n byw mewn ardaloedd gwledig. |
| **Trafnidiaeth a Hygyrchedd** | Mae diffyg trafnidiaeth addas, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn rhwystr allweddol. |
| **Heriau Gofal Cymdeithasol** | Mae anhawster cael mynediad at becynnau gofal a'u llywio yn her gyffredin. |
| | Heriau i ofalwyr di-dâl sy'n sicrhau seibiant neu gyngor. |
| **Pryderon Staffio** | Adroddwyd am staff yn cael eu gorymestyn, apwyntiadau wedi'u canslo oherwydd darpariaeth staff a pharhad gofal. |

| | |
|---|---|
| | Disgrifiodd pobl brofiadau lle'r oedd ymddygiad staff yn teimlo'n frysiog ac yn ddiystyriol. |
| **Integreiddio Gwasanaethau** | Diffyg cydlynu rhwng gwasanaethau gan gynnwys bylchau mewn trosglwyddiadau a symud rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. |
| | Dim un pwynt atebolrwydd gyda phobl yn gorfod cysylltu â sawl adran i gael y wybodaeth ddiweddaraf. |
| **Achosion Eiriolaeth Cwynion (Meintiol)** | Nifer yr achosion newydd a agorwyd yn ystod y chwarter: 429<br>Cyfanswm yr achosion: 912<br>Ffocws ar:<br>Gofal clinigol (165)<br>**Gyfathrebu:**<br>Amseroedd aros (33) |

## Beth sy'n gweithio'n dda

Yn chwarter cyntaf 2025 rydym yn clywed

Mae meddygfeydd teulu a ganmolwyd am ofal cynhwysol ac ymatebol, ac adroddwyd bod gan y rhai sy'n cefnogi grwpiau agored i niwed gan gynnwys pobl sy'n profi digartrefedd ffyrdd o weithio a oedd yn galluogi pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chael mynediad at driniaeth amserol.

Mae gwasanaethau cymorth cymunedol a ddarperir gan y Trydydd Sector sy'n darparu rhagnodi cymdeithasol a grwpiau dan arweiniad cyfoedion fel Men's Sheds yn cael eu gwerthfawrogi am y gefnogaeth maen nhw'n ei darparu a hygyrchedd y gwasanaethau hyn.

Mae staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn aml yn cael eu canmol am eu dull a'r caredigrwydd maen nhw'n ei ddangos, gydag enghreifftiau o ble mae pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando a'u gwerthfawrogi a'r effaith gadarnhaol y mae hyn yn ei chael ar eu profiad o iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cynrychioliadau

Drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion a'n hymdrechion ymgysylltu, rydym wedi gwneud dros 141 o gynrychioliadau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn. Yn Chwarter 1, fe wnaethom ddatblygu'r fanyleb i gomisiynu cefnogaeth ar gyfer datblygu ein fframwaith cynrychioliadau. Bydd hyn yn cynnwys fframwaith clir o safonau sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod ein sylwadau'n cael effaith a bydd yn arwain at fwy o gysondeb yn ein dull gweithredu a chynnydd yn nifer y sylwadau a adroddir.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau a'r fframwaith yn cael ei roi ar waith yn Chwarter 2.

Crynodeb o'r themâu, y materion a'r camau gweithredu / cynrychioliadau yw:

| Thema | Materion allweddol | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| Mynediad at ofal amserol | Oedi wrth gael mynediad at wasanaethau, rhestrau aros hir, apwyntiadau dilynol | Llythyrau cynrychiolaeth wedi'u hanfon, trafodaethau gyda byrddau iechyd. |
| Ansawdd gofal | Problemau ansawdd gan gynnwys therapi annigonol ar wardiau, cyfathrebu gwael, ac oedi wrth ryddhau. | Llythyrau cynrychiolaeth wedi'u hanfon at fyrddau iechyd. |
| Iechyd Meddwl | Anawsterau wrth gael mynediad at gymorth iechyd meddwl cymunedol | Cynrychiolaeth yn dilyn fforymau cyhoeddus a monitro a deialogau parhaus gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. |
| Niwroamrywiaeth | Amseroedd aros ar gyfer asesiadau | Anfonwyd llythyrau cynrychiolaeth a chysylltwyd â sefydliadau eraill i wirio profiadau. |
| Iechyd Anghydraddoldebau | Rhwystrau i bobl sy'n profi digartrefedd ac wedi'u heithrio o restrau meddygon teulu | Llythyrau cynrychiolaeth a anfonwyd at fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol |

## Uchafbwyntiau a chanlyniadau ymgysylltu:

- **Mamolaeth:** Ym mis Mai cyhoeddwyd ein hadroddiad *Cael babi yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe* . Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r profiadau a rannwyd gan bobl a ddywedodd wrthym am eu defnydd o wasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cafodd sylw cenedlaethol gan y wasg a'r cyfryngau ac arweiniodd at Ysgrifennydd y Cabinet yn cyhoeddi asesiad Cymru gyfan o wasanaethau mamolaeth.
- **Yr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Garem:** Mae paratoadau ar gyfer ein prosiect Cymru gyfan i ddarganfod beth mae pobl yn ei feddwl am eu hawliau, eu disgwyliadau a'u cyfrifoldebau yn barod ar gyfer lansio ym mis Gorffennaf wedi bod yn mynd rhagddynt drwy gydol chwarter 1. Rydym wedi cynnal adolygiad bwrdd gwaith, wedi creu deunyddiau i'w rhannu gyda thimau ymgysylltu a gwirfoddolwyr ledled Cymru, canllawiau hunan-hwyluso i gefnogi sefydliadau a grwpiau a chanllawiau ymgysylltu wedi'u targedu ar gyfer plant a phobl ifanc. Gan weithio gyda Four Cymru rydym wedi datblygu'r ymgyrch gyfathrebu a'r asedau.
- **Llais Lleol:** Ymgysylltu â phobl sy'n profi digartrefedd a gweithio gyda sefydliadau eraill yng Ngwent a Chaerdydd a'r Fro. Arweiniodd hyn at enghreifftiau o arfer da ac adborth cadarnhaol gan unigolion am wasanaethau meddygon teulu yn ogystal â meysydd i'w gwella. Yng Ngogledd Cymru, rhannwyd profiadau o wasanaethau meddygon teulu, deintyddion y GIG, lleoliadau sy'n gyfeillgar i ddementia a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yng Ngorllewin Cymru clywsom bryderon ynghylch cyfathrebu rhwng y bwrdd iechyd a chleifion. Casglodd CTM ystod eang o adborth am iechyd a gofal cymdeithasol a rhannodd gyfleoedd gwirfoddoli. Cynhaliodd CNPT ac Abertawe fforymau cyhoeddus gydag adborth am hybiau menywod ac iechyd menywod. Mae Llais Lleol wedi profi i fod yn ffordd o siarad â chymunedau lleol a chodi gwelededd Llais yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu hynny.
- **Digwyddiadau cenedlaethol:** yn ystod y chwarter cyntaf rydym wedi cynnal stondinau a sgyrsiau yn y digwyddiadau cenedlaethol canlynol:

Gwobrau Gofal Cymdeithasol, Pride Cymru, Eisteddfod yr Urdd, Sioe Iechyd Meddwl a Lles, Gŵyl Everywoman. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle inni ddatblygu ein rhwydweithiau gofal cymdeithasol, clywed mwy gan y gymuned LGBTQ+, siaradwyr Cymraeg, darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl a dysgu mwy am wasanaethau iechyd menywod yng Nghymru.

## Casgliad

Yn Chwarter 1, rydym wedi cael dechrau cryf i'r flwyddyn, gyda chynnydd amlwg ar draws sawl maes o'n perfformiad a ffocws parhaus ar ymgorffori'r blaenoriaethau a nodir yn ein cynllun blynyddol. Mae gweithgarwch ymgysylltu wedi cynyddu, gydag ymdrechion wedi'u targedu i gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a gweithrediad cynnar ein rhaglen hawliau, disgwyliadau a chyfrifoldebau. Mae arwyddion cadarnhaol bod ein gwaith cenedlaethol yn dod yn fwy gweladwy a gwerthfawr.

Fodd bynnag, cafodd bylchau staffio a'r capasiti dilynol effaith amlwg ar gyflymder a graddfa'r ddarpariaeth y chwarter hwn. Mae hyn wedi effeithio ar ddarpariaeth weithredol a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu rhagweithiol. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn hanfodol i gynnal momentwm a sicrhau dull cynaliadwy o gyflawni ein hymrwymiadau.

Er gwaethaf y pwysau hwn, mae datblygiadau cadarnhaol yn cynnwys cyflwyno'r rhaglen hawliau, disgwyliadau a chyfrifoldebau'n gynnar, cynnydd ar gryfhau casglu data a chyfathrebu mewnol, a diddordeb cynyddol gan bartneriaid allanol mewn gweithio gyda ni.

Mae ein dysgu'r chwarter hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd dull clir, sy'n cael ei arwain gan werthoedd, o ymgysylltu â'r cyhoedd – un sy'n gynhwysol, yn ymatebol, ac yn realistig ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.